PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Budd-daliadau a Phethau i’w Hawlio - Addysg

## Canllaw i bobl ifanc yn Sir Gâr

Adnodd 7 o 12

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

VFCC
Voices from Care Cymru

Mae'n bosib hoffet ti ddarllen yr adnoddau hyn hefyd:

- Budd-daliadau a hawl i fudd-daliadau
- Arian - Mae angen peth arna i!
- Cyllidebu
- Mynd o gwmpas- Sir Gaerfyrddin

Prosiect Paratoi

**Gwefannau defnyddiol**

I gael rhagor o wybodaeth, cer i

- **https://www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/ab.aspx**
- **https://www.colegsirgar.ac.uk/index.php/cy/10-welsh/640-cefnogi-dysgwyr**
- **https://www.princes-trust.org.uk/help-for-young-people/get-funding-train-learn**

# COLEG - GRANTIAU



Mae cymorth ar gael i ti os wyt ti am fynd i'r Coleg. Beth am ddechrau gyda grantiau.

## Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)

Lwfans yw hwn rwyt ti'n ei gael pan fyddi di'n mynd i Goleg. Rhaid i ti fod:

- yn 16-18 oed
- yn byw mewn cartref incwm isel
- byddi'n cael £30 yr wythnos
- rhaid i ti barhau i fynd i'r Coleg er mwyn parhau i dderbyn yr arian

Gwna gais am y lwfans hwn erbyn diwedd Mehefin cyn bod dy gwrs yn dechrau.
I gael rhagor o wybodaeth, siarad â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr




## Princes Trust

Ar gyfer pobl ifanc 16-30 oed
Rwyt ti'n gallu gwneud cais am gymorth gyda'r costau canlynol:

- ffioedd cwrs
- offer

Rhaid i ti fod:

- yn astudio am lai na 14 awr yr wythnos neu heb fod yn derbyn addysg orfodol
- yn ddi-waith neu'n gweithio llai nag 16 awr yr wythnos

## Tîm y Cam Nesa

Mae'n bosib y byddi di'n gallu cael cymorth gan Dîm y Cam Nesa. Siarad â'th Gynghorydd Personol i gael gwybod rhagor. Gallai'r cymorth posib gynnwys y canlynol:

- ffioedd cofrestru, ffioedd cwrs ac ati
- cwrs neu offer arbenigol sy'n angenrheidiol
- costau teithio i'r Coleg
- cost teithiau addysgol tra byddi di yn y Coleg/Brifysgol

## Grant Dysgu Llywodraeth Cymru

Os wyt ti'n 19+ oed, mae'n bosib i ti gael rhywfaint o gymorth tuag at gostau astudio:

- gallet ti gael hyd at £1500 ar gyfer cwrs amser llawn
- gallet ti gael hyd at £750 ar gyfer cwrs rhan amser
- bydd y swm rwyt ti'n ei gael yn dibynnu ar dy incwm

Mae'n syniad da cyflwyno cais erbyn diwedd Mehefin cyn bod dy gwrs yn dechrau.



**Cysylltiadau allweddol a rhagor o wybodaeth**

Yng Ngholeg Sir Gâr, y ddolen gyswllt ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yw:

- Matthew Morgan
- 07827449459
- Matthew.morgan@colegsirgar.ac.uk

I gael rhagor o wybodaeth am Gymorth i Fyfyrwyr, cer i: **https://www.colegsirgar.ac.uk/index.php/cy/10-welsh/640-cefnogi-dysgwyr**

COLEG SIR GAR

Mae'r dudalen hon yn disgrifio'r cymorth sydd ar gael yng Ngholeg Sir Gâr ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.



## Cronfa Ariannol Wrth Gefn

- Mae gan Goleg Sir Gâr gronfa ar gyfer myfyrwyr sydd angen cymorth ychwanegol
- Hyn a hyn o arian sydd yn y gronfa
- Siarad â Chymorth i Fyfyrwyr os bydd angen y cymorth hwn arnat ti

## Cymorth sydd ar gael

- cyngor a chanllawiau ar yr arian rwyt ti'n gallu ei hawlio i'th helpu gyda'th astudiaethau
- gwasanaeth cwnsela
- cymorth mentora
- cymorth cofrestru

## Cymorth cyn i ti fynd i'r Coleg

Mae Coleg Sir Gâr yn cynnig cymorth i ti, fel person ifanc sydd â phrofiad o ofal, cyn i ti fynd i'r Coleg:

- Ymweliadau anffurfiol â'r campws
- Trefnu wythnos ragflas yn ystod gwyliau'r haf
- Gweithgareddau pontio ym mis Gorffennaf
- Byddan nhw'n dod i'th gyfarfodydd cymorth yn yr ysgol os bydd hynny'n berthnasol

Os wyt ti'n byw dros 3 milltir o'r campws, fe gei di wneud cais am docyn bws am ddim

colegsirgâr

**Gwybodaeth ddefnyddiol**

I gael gwybodaeth gyffredinol am fywyd yn y brifysgol, edrych ar:

- https://www.themix.org.uk/
- https://www.nus.org.uk/
- https://www.prospects.ac.uk/applying-for-university/university-life
- https://www.thestudentroom.co.uk/university/life/what-university-is-really-like

# ADDYSG UWCH



Wedi bod yn y Coleg ac yn ystyried y cam nesaf? Yma, byddwn ni'n edrych ar y cymorth sydd ar gael i ti os wyt ti am fynd i'r brifysgol

## Bwrsariaeth Addysg Uwch

- Mae gen ti hawl i gael Bwrsariaeth Addysg Uwch
- Mae'n werth £2000
- Dy gyngor lleol sy'n talu
- Does dim angen talu’r arian yma’n ôl
- Hola dy gynghorydd personol am hyn

Mae'n bosib bydd y Brifysgol rwyt ti'n gwneud cais iddi yn cynnig ei bwrsariaethau neu ei grantiau ei hun i helpu pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal

Os wyt ti eisiau mynd i Brifysgol sydd ymhellach i ffwrdd, cer i wefan Propel i weld pa gymorth sydd ar gael i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.
https://propel.org.uk/UK/

## Grant Cymorth Arbennig

Mae hwn ar gael i'r canlynol:

- Rhieni sengl
- Pobl sy'n derbyn y rhan o Gredyd Cynhwysol sy'n ymwneud â thai

Os wyt ti'n gymwys ar gyfer y grant yma, gallet ti gael £5,161 y flwyddyn

## Benthyciad Cynhaliaeth

- Mae'n bosib i ti wneud cais am fenthyciad cynhaliaeth
- Mae'r swm byddi di'n ei dderbyn yn dibynnu ar dy incwm
- Os wyt ti'n byw ar aelwyd incwm isel, mae'n bosibl byddi di'n cael rhywfaint o'r arian ar ffurf grant hefyd sy'n golygu na fydd rhaid i ti dalu rhywfaint o'r arian yn ôl.

## Grant Dysgu Llywodraeth Cymru

- Mae'r swm byddi di'n ei gael yn dibynnu ar dy incwm
- Po fwyaf yw dy incwm, lleiaf byddi di'n ei gael!

Meddwl am fynd i’r Brifysgol? Dyma ragflas o'r cymorth sydd ar gael ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCYDDS)

**Person a Enwebwyd**

Mae gan bob campws berson penodol sy'n gallu cynnig cymorth i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.
Prif swydd y bobl yma yw Swyddog Cyllid Myfyrwyr, sy'n golygu bod modd i ti fynd i'w gweld nhw heb i bobl wybod bod gen ti brofiad o ofal:

- Campws Caerfyrddin- Delyth Lewis, 01267 676947, d.lewis@trinitysaintdavid.ac.uk
- Campws Llanbedr Pont Steffan- Lynda Lloyd-Davies, 01570 424722, l.lloyd-davies@trinitysaintdavid.ac.uk
- Campws Abertawe - Sharon Alexander, 01792 481123, sharon.alexander@sm-uwtsd.ac.uk

Efallai bydd gwefan Undeb y Myfyrwyr yn ddefnyddiol i ti hefyd

- **https://www.tsdsu.co.uk/cy/**

**PRIFYSGOL CYMRU Y DRINDOD DEWI SANT**

## Cymorth cyn derbyn

Os wyt ti wedi sôn am dy brofiad o ofal yn dy gais neu yn dy Goleg, bydd y Brifysgol a/neu ei phartneriaid:

- Yn dy helpu i ddod i ddiwrnodau agored
- Yn cynnig siawns i ti fynd i ysgolion haf
- Yn dy helpu gyda'th gyfweliad
- Yn dy helpu gyda chyllid myfyrwyr

- Gofala nodi ar dy gais UCAS dy fod ti’n berson ifanc sydd â phrofiad o ofal
- Bydd hynny'n helpu'r Brifysgol i gynnig gwell cymorth i ti

## Cymorth ar y campws

Bydd y cymorth byddi di'n ei gael yn dibynnu ar dy anghenion, ond gallai gynnwys:

- Cyfarfodydd rheolaidd gyda staff cymorth
- Mynediad i wasanaeth iechyd meddwl
- Mynediad i wasanaeth llesiant
- Cymorth gyda sgiliau astudio
- Mynediad at 'Big White Wall' - cymorth iechyd meddwl ar-lein

## Arian!

Mae'r Brifysgol yn rhedeg nifer o gynlluniau ariannol i'th helpu:

- Bydd y Brifysgol yn dy helpu i sicrhau dy fod ti'n cael yr arian cywir gan Gyllid Myfyrwyr
- Bwrsariaeth - lle gallet ti hawlio hyd at £1000
- Cronfa Galedi - ar gyfer unrhyw fyfyrwyr sydd mewn sefyllfa ariannol anodd iawn
- Bwrsariaeth breswyl - gallet ti wneud cais i'r gronfa hon am help gyda'th rent ac ati
- Llyfrau - mae'n bosib cyflwyno cais i gronfa i'th helpu i dalu am lyfrau cwrs hanfodol

## Llesiant

- Gall mynd i'r Brifysgol achosi straen
- Gall olygu newidiadau mawr fel symud i ardal newydd, gwneud ffrindiau newydd ac ati
- Gwna'n siŵr dy fod ti’n gofalu am dy iechyd meddwl a'th lesiant er mwyn gallu dal i feddwl yn gadarnhaol
- I gael cymorth a chynghorion llesiant, cer i: **https://platfform.org/cy/project/pobl-ifanc/**

## Yr Wythnosau Cyntaf

- Bydd y Gwasanaethau Myfyrwyr yn rhoi cyflwyniad i'r HOLL fyfyrwyr i sôn am y cymorth sydd ar gael
- Bydd hynny'n cynnwys y cymorth penodol sydd ar gael i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.